
# Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

Cam 1, Pasg 2019

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
22/2019
DYDDIAD CYHOEDDI:
MAI 16, 2019






Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN Digidol: 978-1-83876-293-3

© Hawlfraint y Goron 2019

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru: Cam 1, Pasg 2019

Anthony Lydall ac Amy Childs, Strategic Research and Insight

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:
Tîm Ymchwil a Mewnwelediad
Croeso Cymru
Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Canolfan QED, Ystad Trefforest
Pontypridd, Rhondda Cynon Taf
CF37 5YR

E-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

ISBN: 978-1-83876-293-3
Mai 16, 2019
© Hawlfraint y Goron 2019

Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan Fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth, ac eithrio lle nodir fel arall.

## Cynnwys


1. Prif ganfyddiadau ..... 2
2. Cefndir a methodoleg ..... 3
3. Perfformiad y pasg ..... 4
4. Rhesymau dros gynnydd mewn ymwelwyr ..... 7
5. Rhesymau dros lai o ymwelwyr ..... 8
6. Proffidioldeb ..... 11
7. Gwasgariad tymhorol busnes fesul sector ..... 13
8. Gwasgariad tymhorol busnes fesul rhanbarth ..... 14
9. Ar agor drwy gydol y flwyddyn ..... 15
10. Busnesau sy'n cau ..... 16
11. Aros ar agor am gyfnod hirach ..... 18
12. Hyder ar gyfer yr haf ..... 20
13. Canfyddiadau ansoddol ..... 22

# 1. Prif ganfyddiadau

**Pasg hwyr a thywydd gwell yn denu ymwelwyr**

1.1 Mae’r rhan fwyaf o fusnesau (86%) wedi cynyddu neu gynnal lefelau eu hymwelwyr y Pasg eleni. Ymysg y 39% sydd wedi gweld cynnydd yn eu hymwelwyr, y rheswm mwyaf cyffredin yw 'tywydd gwell' - a nodwyd gan ddau draean o'r ymatebwyr hyn. Mae nifer o ardaloedd yng Nghymru wedi mwynhau heulwen braf drwy gydol penwythnos y Pasg. Roedd y ffaith bod y Pasg yn hwyr eleni wedi helpu’r tebygolrwydd o gael tywydd braf - roedd un traean o'r rheini a welodd gynnydd yn niferoedd eu hymwelwyr yn nodi 'Pasg hwyr' fel ffactor cadarnhaol.

**Pob ardal yng Nghymru yn perfformio'n dda**

1.2 Mae de-orllewin Cymru wedi mwynhau Pasg eithriadol o dda, gyda 44% o fusnesau wedi cynyddu eu hymwelwyr. Mae pob ardal yng Nghymru wedi gweld cynnydd, a’r prif resymau oedd tywydd gwell a Phasg hwyr fel y trafodwyd uchod.

**Mae'r sectorau sy’n gallu manteisio ar dywydd da ar fyr rybudd, wedi elwa fwyaf**

1.3 Mae sectorau lle nad oes angen i ymwelwyr archebu ymlaen llaw, os o gwbl, wedi perfformio'n arbennig o dda. Ar y llaw arall mae’r sector hunanddarpar, lle mae tuedd i archebu lle ymlaen llaw, wedi bod yn sefydlog.

1.4 Mae'r sector atyniadau ar i fyny ar y cyfan, ond mae atyniadau dan do wedi bod yn dawelach am fod tywydd 'da' i bawb arall ddim o reidrwydd yn 'dda' iddyn nhw.

**Hyder mawr ar gyfer yr haf**

1.5 Yn dilyn Pasg braf, mae’r mwyafrif helaeth (85%) o weithredwyr yn hyderus ar gyfer yr haf. Mae Pasg braf wedi gwneud i’r sector sy'n dibynnu'n helaeth ar y tywydd, y sector carafanau a gwersylla, yn teimlo'n hynod optimistaidd, mae 97% o weithredwyr carafanau a gwersylla yn hyderus ar gyfer yr haf.

**Effaith Brexit ar archebion yr haf**

1.6 Mae'r sylwadau agored yn awgrymu fod ansicrwydd Brexit yn effeithio ar archebion ymlaen llaw ar gyfer yr haf – mewn modd cadarnhaol a negyddol. Mae'n ddistaw o ran ymholiadau ac archebion gan bobl Ewropeaidd, ond mae'r farchnad ddomestig yn edrych yn addawol.

**Mae'r mwyafrif o fusnesau yn darparu eu gwasanaethau drwy gydol y flwyddyn**

1.7 Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o fusnesau (77%) ar agor drwy gydol y flwyddyn. Meysydd carafanau a gwersylla sy'n ddibynnol ar y tywydd yw'r unig sector lle mae'r mwyafrif o fusnesau'n cau ar ryw adeg o'r flwyddyn.

## 2. Cefndir a methodoleg

### Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

2.1 Cynlluniwyd Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru i roi adborth cyflym ynglŷn â'r ffordd y mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r Arolwg wedi'i gynnal ar ffurfiau amrywiol ers 2005, ac fel arfer cynhelir rhwng dau a phum 'cam' ymchwil bob blwyddyn.

2.2 Mae'r cam ymchwil hwn yn ymwneud â gyfnod y Pasg yn 2019, gyda mesuriadau hefyd o ddisgwyliadau ar gyfer yr haf.

### Sut y cynhelir yr Arolwg?

2.3 Rydym wedi cynnal 819 o gyfweliadau dros y ffôn. Mae hwn yn golygu bod canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i ±3.4%. Mae'r sampl yn adlewyrchu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru, ac fe'i dangosir isod yn ôl sector a rhanbarth:


| Sector / Rhanbarth | Gogledd | Canolbarth | De-orllewin | De-ddwyrain | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Llety â gwasanaeth | 103 | 44 | 75 | 55 | **277** |
| Llety hunanarlwyo | 95 | 48 | 92 | 33 | **268** |
| Meysydd carafanau/pebyll | 41 | 10 | 21 | 5 | **77** |
| Hostelau | 7 | 7 | 7 | 5 | **26** |
| Atyniadau | 30 | 12 | 19 | 24 | **85** |
| Gweithredwyr gweithgareddau | 14 | 7 | 13 | 5 | **39** |
| Bwytai / tafarndai / caffis | 8 | 13 | 8 | 18 | **47** |
| **Cyfanswm** | **298** | **141** | **235** | **145** | **819** |

2.4 Mae tua tri chwarter (73%) o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru ar hyn o bryd, ac mae 27% heb eu graddio. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau nad ydynt wedi eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytai / tafarndai / caffis a gweithredwyr gweithgareddau, lle nad yw graddio'n berthnasol. Mae gweithredwyr bwytai, tafarndai a chaffis wedi eu dewis mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o dwristiaid ar draws gwahanol rannau o Gymru a gofynnwyd iddynt ateb cwestiynau yng nghyd-destun eu cwsmeriaid sy'n dwristiaid (h.y. nid cwsmeriaid lleol).

2.5 Cynhaliwyd pob cyfweliad dros y ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnes ym mis Ebrill. Ceir copi o'r holiadur fel atodiad.

# 3. Perfformiad y pasg

## Perfformiad fesul sector




Sail: 790

### Manteisio i'r eithaf ar yr heulwen

3.1 Mae’r rhan fwyaf o fusnesau (86%) wedi cynyddu neu gynnal lefelau eu hymwelwyr y Pasg hwn. Mae sectorau lle nad oes angen i ymwelwyr archebu lle ymhell o flaen llaw, os o gwbl, wedi perfformio'n arbennig o dda. Mae bwytai / tafarndai / caffis sydd wedi'u cynnwys yn y gwaith ymchwil hwn mewn ardaloedd lle ceir nifer uchel o dwristiaid, ac maen nhw wedi elwa'n fawr ar yr heulwen a welwyd ar yr adeg ddelfrydol dros benwythnos y Pasg.

> *“Rydym yn dibynnu'n fawr ar y tywydd yn ein lleoliad ni”*
> Caffi, y De-orllewin

3.2 Archebir llety â gwasanaeth yn ddigymell yn aml, ond yn y sector llety hunanddarpar, tueddir i archebu lle ymhellach ymlaen llaw ac mae'r arosiadau’n dueddol o fod yn hirach. Gallai hyn egluro pam fod y sector hwn wedi bod yn sefydlog, tra bod lefel y twristiaid yn llawer uwch mewn sectorau eraill.

> *“Gwnaeth y tywydd ein helpu, oherwydd cawsom lawer o bobl yn aros am noson”*
> Llety â gwasanaeth, y Gogledd


> *“Rydyn ni'n galw ein hunain yn 'parc carafanau bwcio'r funud olaf'! Rydym wedi gwrthod pobl y Pasg hwn gan ein bod wedi bod mor brysur"*
> Parc carafanau, y Gogledd

3.3 Mae'r sector atyniadau wedi bod yn fwy prysur yn gyffredinol, ond mae atyniadau dan do wedi bod yn dawelach oherwydd nid yw tywydd 'da' i bawb arall o reidrwydd yn 'dda' iddyn nhw.

*“Mae'r tywydd wedi bod yn well felly mae pobl yn ymweld â'r traeth"*
Atyniad, y De-orllewin

*"Os yw'n rhy boeth, mae pobl yn mynd i'r traeth yn lle, ac os yw'n glawio, nid ydynt yn dod o gwbl"*
Atyniad, y De-orllewin


## Tuedd o ran perfformiad




**Pasg gwahanol iawn o'i gymharu â’r llynedd**

3.4 Wrth weld twristiaid allan yn yr heulwen braf, mae'n anodd meddwl yn ôl i Basg diflas y llynedd gyda'i dywydd oer a gwlyb – lle gwelwyd hyd yn oed eira mewn rhai mannau. Mae perfformiad cryf y flwyddyn hon wedi rhoi dechrau da i'r diwydiant, mewn cyfnod a ystyrir yn ddechrau'r tymor i rai.

## Perfformiad fesul rhanbarth




Sail: 790

**Mae pob rhanbarth yng Nghymru yn perfformio'n dda**

3.5 Gwelir cyfnod llwyddiannus y Pasg ym mhob rhan o Gymru, yn enwedig yn y de-orllewin, y canolbarth a'r gogledd.

> *"Rydyn ni'n cyrraedd pob un o'n targedau"*
> Llety â gwasanaeth, y Gogledd

> *"Rydym yn teimlo'n bositif os yw'r Pasg yn faromedr"*
> Atyniad, y De-orllewin


**Effaith cael gwared ar dollau Pont Hafren**

3.6 Cafwyd gwared ar dollau Pont Hafren ym mis Rhagfyr 2018, ac mae rhai busnesau yn ne Cymru yn dweud eu bod yn gweld mwy o ymwelwyr yn dod i mewn i Gymru yn hytrach na de-orllewin Lloegr.

> *"Ers i'r tollau fynd, rydym wedi gweld llawer mwy o syrffwyr o Loegr yn dod i Borthcawl"*
> Bwyty, y De-ddwyrain

> *"O ganlyniad i gael gwared ar ffioedd Pont Hafren, rydym wedi gweld cynnydd o ryw 30%. Mae pobl a fyddai fel arall wedi mynd i Ddyfnaint i syrffio yn dod i Borthcawl nawr."*
> Atyniad, y De-ddwyrain

## 4. Rhesymau dros gynnydd mewn ymwelwyr





Sail: 304

**Pasg hwyr a thywydd gwell**

4.1 Ymysg y 39% sydd wedi gweld cynnydd yn eu hymwelwyr, y rheswm mwyaf cyffredin yw 'tywydd gwell' - a nodwyd gan ddwy ran o dair o'r ymatebwyr hyn. Gwnaeth sawl rhan o Gymru fwynhau heulwen braf drwy gydol penwythnos y Pasg. Roedd cael Pasg hwyr eleni wedi gwella'r siawns o dywydd da – nododd traean o'r rhai hynny a welodd gynnydd yn eu hymwelwyr 'Pasg hwyr' fel ffactor cadarnhaol.

> *"Cawson ni Basg anhygoel gan fod y tywydd cystal. Roedden ni mor brysur yn y bwyty, ac yn llawn yn y gwesty hefyd."*
> Llety â gwasanaeth, y Gogledd

## 5. Rhesymau dros lai o ymwelwyr




Sail: 112

### Ansicrwydd Brexit

5.1 Roedd mis Mawrth a mis Ebrill yn fisoedd gwleidyddol anodd iawn, gyda dyddiad y DU ar gyfer ymadael â'r UE yn cael ei ymestyn ar y funud olaf i fis Ebrill, ac eto am yr ail dro tan yn ddiweddarach y flwyddyn hon.

5.2 Mae'r ansicrwydd hwn wedi effeithio ar rai busnesau twristiaeth. Dywed rhai bod pobl wedi gohirio archebu lle tan oeddent yn gwybod beth oedd yn mynd i ddigwydd, ac nid ydynt yn gwybod o hyd. Mae'n ymddangos bod busnesau sy'n dibynnu ar ymwelwyr Ewropeaidd wedi cael eu heffeithio yn fwy. Trafodir hyn ymhellach yn yr Adran nesaf (*Perfformiad yn ôl y farchnad*).


> *“Rydym wedi gweld dirywiad mewn ymwelwyr Ewropeaidd. Rwy'n credu mai Brexit sy'n gyfrifol am hyn. Mae'n seicolegol ac yn gwbl afresymol. Oherwydd Brexit hefyd, gwelir tuedd i archebu'r funud olaf."*
> Llety â gwasanaeth, y Gogledd

> *“Mae archebion yn araf iawn eleni. Rwy'n credu bod pobl yn aros am nad ydynt yn gwybod beth sy'n digwydd gyda Brexit."*
> Llety â gwasanaeth, y Gogledd

> *“Bob tro mae dyddiad Brexit wedi cael ei ohirio, mae wedi cael effaith – llai o ymholiadau ac archebion”*
> Llety hunanddarpar, y De-ddwyrain

> “Gwnaeth ansicrwydd Brexit ddifetha'r busnes ym mis Mawrth”
> Darparwr gweithgareddau, y De-orllewin

## Perfformiad yn ôl y farchnad




Sail: Amrywiol

## Marchnad y DU yn parhau i berfformio'n dda

5.3 Mae marchnad y DU (y tu allan i Gymru) yn parhau i berfformio'n dda. Gan ystyried ei phwysigrwydd i ddiwydiant twristiaeth Cymru, mae hyn yn galonogol iawn. Mae'r farchnad hon ar gynnydd ym mhob sector a rhanbarth yng Nghymru.

5.4 Mae rhai gweithredwyr yn dweud bod ansicrwydd Brexit eleni wedi annog pobl i beidio â mynd ar wyliau dramor. Rhoddir rhywfaint o'r diolch hefyd i Croeso Cymru am farchnata i bobl sy'n mynd ar wyliau yn y DU.

> "Rydyn ni'n credu bod ymgyrchoedd hysbysebu Croeso Cymru wedi bod yn ddefnyddiol ac yn dangos Cymru ar ei gorau. *Mae eu hymgyrchoedd ar gyfryngau cymdeithasol yn cael eu canmol.*"
> Atyniad, y De-orllewin

> *"Mae Brexit yn golygu bod pobl yn fwy gofalus gyda'u harian ac yn treulio mwy o'u gwyliau gartref"*
> Parc carafanau, y Gogledd

## Mae marchnad yr Almaen wedi dirywio

5.5 Mae profiadau busnesau Ewropeaidd yn amrywio, ond mae'r Almaen yn dirywio. Mae gweithredwyr yn credu mai Brexit sy'n gyfrifol am hyn.

> *"Mae Brexit wedi cael effaith sylweddol ar y busnes eisoes – llai o archebion o dramor"*
> Llety hunanddarpar, y De-ddwyrain

**Adborth cymysg ar farchnadoedd pell**

5.6 Ymddengys fod marchnadoedd Gogledd America a 'gweddill y byd' yn eithaf sefydlog ar y cyfan, gydag adborth cymysg ar b'un a yw'r marchnadoedd hyn wedi gweld cynnydd neu ddirywiad.


> "Rydyn ni'n gweld llawer mwy o Americanwyr a Tsieineaid. *Mae'r twristiaid o Tsieina wrth eu boddau'n gwneud arforgampau, ac yn awyddus iawn i gymryd rhan, ond ymddengys nad yw'r mwyafrif ohonynt yn gallu nofio."*
> Darparwr gweithgareddau, y De-orllewin

> *"Archebion o bob rhan o'r byd, yn bennaf o'r Unol Daleithiau a Chanada hyd yn hyn"*
> Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

5.7 Mae rhai adroddiadau fod marchnad Awstralia yn perfformio'n dda. Gallai lansio teithiau awyr Qatar Airways i/o Faes Awyr Caerdydd ac ymdrechion dilynol Croeso Cymru i hyrwyddo i Asia a'r Môr Tawel fod wedi dylanwadu ar hyn.

> *"Mae'r archebion yn llifo i mewn o bob cwr o'r byd, gan gynnwys Awstralia."*
> Llety hunanddarpar, y Canolbarth

## 6. Proffidioldeb




Sail: 760


### Tueddiadau sector tebyg iawn i lefelau'r ymwelwyr

6.1 Mae lefelau'r proffidioldeb y Pasg hwn yn amrywio yn ôl sector – yn debyg iawn i'r amrywiaeth yn nifer yr ymwelwyr. Mae rhai atyniadau'n dweud eu bod yn sylwi bod ymwelwyr yn gwario llai, a dywedir mai ansicrwydd Brexit sy'n gyfrifol am hyn.

> *"Oherwydd ansicrwydd Brexit, nid yw pobl yn gwario cymaint ag arfer. Rydyn ni'n oriel sy'n gwerthu eitemau moethus. Mae pobl yn aros hyd nes byddant yn gwybod beth sy'n digwydd gyda Brexit."*
> Atyniad, y De-ddwyrain

> *"Gyda Brexit ar y gorwel, nid yw pobl yn gwario hanner cymaint ag arfer"*
> Atyniad, y De-ddwyrain


**Tueddiadau o ran proffidioldeb**




**Mae'r duedd o ran proffidioldeb yn debyg iawn i'r duedd o ran nifer yr ymwelwyr**

6.2 Awgryma'r duedd o ran proffidioldeb nad yw'r lefelau uwch o ymwelwyr y Pasg hwn wedi dod ar draul gostwng prisiau. Mae rhai canlyniadau hanesyddol (e.e. yn ystod dirwasgiad) yn dangos bod cynnal neu gynyddu lefelau ymwelwyr yn gallu digwydd ar draul proffidioldeb.

## 7. Gwasgariad tymhorol busnes fesul sector




Sail: 750

### Pwysigrwydd cyfredol gwyliau haf yr ysgol

7.1 Cyfnod prysuraf y sector twristiaeth yw gwyliau haf yr ysgol yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst. Yn gyffredinol, dywed gweithredwyr y daw dwy ran o bump (41%) o'u busnes o'r cyfnod hwnnw yn yr haf.


7.2 I feysydd carafanau a gwersylla, mae'r cyfnod rhwng y Pasg a diwedd gwyliau'r haf yn adeg dyngedfennol i'w busnes, gyda'r rhan fwyaf (81%) o'u busnes yn dod yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae eu perfformiad yn dibynnu'n fawr ar y tywydd, a gallai hyn egluro pam fod busnes yn tawelu ar ôl yr haf.

> *"Rydym ar agor rhwng mis Ebrill a mis Awst yn unig...mae'r tywydd yn dueddol o helpu."*
> Maes carafanau a gwersylla, y Canolbarth

> *"Rydym yn llawn ar gyfer gŵyl banc y Gwanwyn a'r ail wythnos o fis Gorffennaf. Mae tua 90% o'n llety yn llawn yn ystod adeg prysuraf yr haf."*
> Maes carafanau a gwersylla, y De-orllewin

7.3 Mae bwytai, tafarndai a chaffis yn cael gwasgariad ychydig yn fwy cytbwys o fusnes drwy gydol y flwyddyn o'u cymharu â rhai sectorau eraill. Er eu bod mewn ardaloedd lle ceir nifer uchel o dwristiaid, dim ond rhan o'u busnes a ddaw o dwristiaeth.

## 8. Gwasgariad tymhorol busnes fesul rhanbarth




Sail: 750


### Ychydig o amrywiaeth fesul rhanbarth

8.1 Gwelir rhywfaint o amrywiaeth mewn gwasgariad tymhorol fesul rhanbarth. Ymddengys mai'r De-ddwyrain sy'n fwyaf sefydlog drwy gydol y flwyddyn, gan ddenu cyfran uwch o'i fusnes (17%) rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth na rhanbarthau eraill. Gallai'r ffaith fod Caerdydd yn cynnal nifer o ddigwyddiadau chwaraeon yn ystod tymhorau tawelach fod yn dylanwadu ar hyn, yn enwedig gemau rygbi rhyngwladol yr hydref a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad yn ystod misoedd Chwefror a Mawrth bob blwyddyn.

> *"Mae ein llety'n cael ei lenwi ymhell o flaen llaw ar gyfer digwyddiadau fel y rygbi – mae gennym archebion yn barod ar gyfer Pencampwriaeth y Chwe Gwlad y flwyddyn nesaf."*
> Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

> *"Er mai dim ond dwy gêm gafodd eu chwarae yng Nghaerdydd yn ystod Pencampwriaeth y Chwe Gwlad eleni, gwnaethom yn dda iawn drwy gydol y Bencampwriaeth."*
> Bar, y De-ddwyrain

## 9. Ar agor drwy gydol y flwyddyn




Sail: 819

**Mae'r mwyafrif o fusnesau yn darparu eu gwasanaethau drwy gydol y flwyddyn**


9.1 Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o fusnesau (77%) ar agor drwy gydol y flwyddyn. Meysydd carafanau a gwersylla sy'n ddibynnol ar y tywydd yw'r unig sector lle mae'r mwyafrif o fusnesau'n cau ar ryw adeg o'r flwyddyn.

9.2 Mae'r rhan fwyaf (90%) o fwytai, tafarndai a chaffis yn aros ar agor drwy gydol y flwyddyn – nid yw'r busnesau hyn yn dibynnu ar dwristiaid yn unig, oherwydd maen nhw'n gwasanaethu cwsmeriaid yn eu hardaloedd lleol yn aml.

> *"Rydym yn gweld llawer o weithwyr swyddfa yn ystod eu hamser cinio."*
> Caffi, y De-ddwyrain

> *"Rydyn ni ar bwys barics, felly rydym bob amser yn cael llawer o gwsmeriaid lleol."*
> Tafarn, y Canolbarth

## 10. Busnesau sy'n cau




*Gofynnwyd C10 i fusnesau nad oeddent ar agor drwy'r flwyddyn yn unig*

**Busnesau sy'n cau dros y gaeaf**

10.1 O'r busnesau hynny nad ydynt ar agor drwy'r flwyddyn, bydd y mwyafrif ohonynt yn dechrau arafu dros fisoedd y gaeaf. Yn y diwydiant, dim ond 12% o fusnes sy'n digwydd rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth ar gyfartaledd (fel y gwelir yn Adran 9). Felly cred rhai gweithredwyr nad yw'n ariannol hyfyw i aros ar agor.

> *"Nid yw aros ar agor dros fis Rhagfyr a mis Ionawr yn gosteffeithiol."*
> Llety â gwasanaeth, y Gogledd

> *"Nid yw'n gwneud synnwyr yn ariannol i aros ar agor dros fisoedd y gaeaf."*
> Atyniad, y Canolbarth

> *“D'oes neb o amgylch dros y gaeaf am ei fod yn oer ac yn ddiflas.”*
> Llety â gwasanaeth, y Gogledd

10.2 Mae ychydig o dan chwarter (23%) o'r gweithredwyr sy'n cau ar ryw adeg o'r flwyddyn yn dechrau cau ym mis Hydref, gyda'r ffigur bron yn treblu i 64% ar gyfer nifer y rhai sy'n cau ym mis Tachwedd. Mae'n bosibl bod y cynnydd cyflym hwn yn adlewyrchu dymuniad busnesau i ddenu mwy o ymwelwyr yn ystod gwyliau hanner tymor mis Hydref cyn iddynt gau dros y gaeaf.

10.3 Ymddengys fod mwy o fusnesau'n cau ar ôl y Nadolig, gyda'r mwyafrif helaeth (95%) o'r rhai hynny sy'n cau ar ryw adeg o'r flwyddyn ar gau ym mis Ionawr. Mae mis Rhagfyr yn fis gwell i fusnes dros y gaeaf yn ôl pob golwg, gyda'r Nadolig yn cyflwyno rhai wythnosau prysur.

> *“Mae gwyliau'r Nadolig yn brysur iawn i ni.”*
> Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

*“Mae'r Nadolig yn adeg dda o'r flwyddyn i ni.”*
Atyniad, y De-orllewin

*“Mae'r rhan fwyaf o'n priodasau ni ym mis Rhagfyr – hwn yw mis gorau'r flwyddyn.”*
Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

**Mae misoedd yr haf yn golygu busnes da**

10.4 Dim ond 1% o fusnesau nad ydynt ar agor drwy gydol y flwyddyn sydd ar gau yn ystod mis Mai a Mehefin, ond nid oes unrhyw fusnesau ar gau dros fis Gorffennaf ac Awst yng nghanol gwyliau'r haf. Yn y diwydiant yn gyffredinol, noda gweithredwyr y daw dwy ran o bump (41%) o'u busnes yn ystod misoedd yr haf.


*“Tymor yr haf yw'r tymor pwysicaf ar gyfer y busnes.”*
Llety hunanddarpar, y Canolbarth

10.5 O ganlyniad i'r cynnydd hwn mewn galw, mae llawer o fusnesau'n derbyn eu harchebion ar gyfer yr haf ymlaen llaw. Dywed nifer o weithredwyr fod eu llety'n llawn yn barod ar gyfer tymor yr haf eleni.

*“Rydyn ni'n cael ein harchebion haf chwe mis ymlaen llaw*.”
Gweithredwr gweithgareddau, y De-ddwyrain

*“Mae 80% o'n llety wedi'i archebu ar gyfer yr haf yn barod.”*
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

## 11. Aros ar agor am gyfnod hirach




Sail: 184

*Gofynnwyd C11 i fusnesau nad oeddent ar agor drwy'r flwyddyn yn unig*

**Nid yw aros ar agor am gyfnod hirach yn opsiwn deniadol i lawer**

11.1 Dywed ychydig llai na hanner (46%) o'r gweithredwyr nad ydynt ar agor drwy gydol y flwyddyn na fyddai unrhyw beth yn eu perswadio i aros ar agor am gyfnod hirach. Dengys sylwadau agored fod busnesau'n defnyddio'r tymor tawel i wneud pethau na fyddent o bosibl yn gallu eu gwneud yng nghanol tymor prysur yr haf. Mae hyn yn cynnwys gwaith cynnal a chadw, gwaith adnewyddu, neu gyfnodau o wyliau blynyddol i staff/perchnogion.

*"Rydyn ni'n cymryd ein gwyliau ac yn gwneud llawer o waith ar y gwesty"*
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

*"Hwn yw ein hamser gorffwys"*
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

*“Rydyn ni'n adnewyddu'r maes gwersylla i'w baratoi ar gyfer y tymor i ddod"*
Maes gwersylla, y Gogledd

11.2 Mae meysydd carafanau a gwersylla, atyniadau awyr agored a darparwyr gweithgareddau yn ddibynnol iawn ar y tywydd. Gall y gaeafau gwlyb ac oer atal busnesau rhag aros ar agor am gyfnod hirach.

*“Rhy oer a diflas”*
Caffi, y Canolbarth


*"Allwn ni ddim oherwydd yr afon."*
Darparwr gweithgareddau, y Canolbarth

11.3 Mae tri o bob deg (30%) gweithredwr yn dweud na allant aros ar agor am gyfnod hirach yn ystod y flwyddyn oherwydd cyfyngiad agor, felly mae eu cyfnod gweithredu y tu hwnt i'w rheolaeth.

*"Cadwraeth"*
Atyniad, y Gogledd

# 12. Hyder ar gyfer yr haf

## Hyder fesul sector




Sail: 785

### Mae'r perfformiad cyfredol yn dylanwadu ar yr hyder ar gyfer y tymor i ddod

12.1 Mae'r hyder ar gyfer yr haf yn uchel ar y cyfan, ond mae hyn yn amrywio fesul sector, fel y dangosir uchod. Mae lefel yr hyder ar gyfer yr haf yn cyfateb yn eithaf agos i berfformiad y Pasg. Mae gweld lefelau uchel o archebion yn parhau i mewn i'r haf yn rhannol gyfrifol am hyn, ynghyd â'r tybiaethau ynghylch haf poeth ar ôl Pasg poeth.

> *"Mae oddeutu 90% o'n llety'n llawn yn ystod adeg prysuraf yr haf"*
> Parc carafanau, y De-orllewin

> *"Rydym yn gobeithio am archebion funud olaf fel pob haf arall, oherwydd mae pobl yn aros i weld a yw'r tywydd yn mynd i fod yn braf cyn archebu lle"*
> Llety â gwasanaeth, y Gogledd

> *"Llawer o archebion ymlaen llaw – rydyn ni'n haerllug o hyderus"*
> Llety â gwasanaeth, y Gogledd

### Mae cwsmeriaid domestig yn archebu lle, ond mae llai o gwsmeriaid o dramor


12.2 Thema gyffredin yn y sylwadau agored yw bod cwsmeriaid o'r DU yn archebu lle, ond mae prinder amlwg o ran ymholiadau / archebion o dramor ar gyfer yr haf hwn (yn enwedig gan Ewropeaid). Credir mai Brexit yw'r prif reswm dros y ddwy duedd.

> *"Rhai archebion ar gyfer yr haf, ond dim ond gan ymwelwyr o'r DU yn hytrach nag o dramor"*
> Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

*“Rydym yn disgwyl llai o ymwelwyr yr haf hwn, yn enwedig o Ewrop, oherwydd Brexit"*
Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

*“Llawer o archebion yn barod ar gyfer yr haf, ond nid o dramor. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â Brexit.”*
Llety hunanddarpar, y De-ddwyrain

**Tuedd mewn hyder**




**Hyder fel y disgwyl yn dilyn Pasg da**

12.3 Pan nad yw perfformiad y Pasg yn arbennig o dda, nid oes llawer o hyder wrth fynd ymlaen, ond pan fydd y perfformiad yn dda, mae llawer o hyder ar gyfer yr haf. Mae Pasg 2019 yn dilyn y duedd hon.

# 13. Canfyddiadau ansoddol

13.1 Rydym wedi cynnal cyfweliadau manwl dros y ffôn â ffigurau twristiaeth allweddol o sefydliadau a chyrff amrywiol ledled Cymru. Trafodir y prif ganfyddiadau isod.

## Perfformiad dros y pasg a dechrau'r flwyddyn

**Dechrau cymysg i'r flwyddyn i rai…**

13.2 Mae rhanddeiliaid wedi gweld dechrau cymysg i'r flwyddyn o ran adroddiadau y maen nhw wedi'u derbyn gan eu haelodau.

13.3 Mae rhai darparwyr yn y gogledd wedi cael dechrau araf i'r flwyddyn, ond ni ddylai hyn adlewyrchu gweddill y flwyddyn.

> *"Mae rhai pobl yn yr ardal wedi bod yn poeni oherwydd y dechrau arafach i'r flwyddyn ... [ond] nid yw'r ffaith ei bod wedi dechrau'n araf yn golygu y bydd yn araf am weddill y flwyddyn."*

13.4 Noda rhanddeiliad arall fod y perfformiad yn ystod mis Ionawr a Chwefror yn well na'r disgwyl, ond bod llai o ymwelwyr yn ystod mis Mawrth ac Ebrill. Ymddengys fod ymateb cymysg gan fusnesau mwy o faint a llai o faint, gyda'r un olaf yn wynebu ychydig o anhawster.

> *"Ar y cyfan, nid yw'n brysur iawn.* Mae rhai o'r asiantaethau mwy o faint yn cael mwy o ymholiadau o fewn Cymru nag yn unrhyw le arall yn y DU. *Ond rwy'n cael negeseuon cymysg gan y busnesau llai o faint hynny - gallai eu marchnata fod yn gyfrifol am hyn."*

**… ond mae'r Pasg wedi bod yn llwyddiant ysgubol**

13.5 Mae pawb o'r diwydiant twristiaeth wedi mwynhau penwythnos y Pasg yn ôl pob golwg. Cred rhanddeiliaid fod Pasg hwyrach wedi helpu i gynyddu nifer yr ymwelwyr yn gyffredinol.

> *"Mae cael Pasg hwyrach yn y flwyddyn yn gwneud gwahaniaeth ... mae pobl wedi cael amser i ddod dros y Nadolig o safbwynt ariannol– mae mis arall o gyflog yn gwneud byd o wahaniaeth."*
>
> *"Mae'r tywydd ychydig yn gynhesach ar y cyfan pan fydd y Pasg yn hwyrach yn y flwyddyn."*

13.6 Yn ogystal, mae rhanddeiliaid yn manteisio ar y gwahaniaethau mewn dyddiadau gwyliau Pasg ysgolion ledled Cymru a Lloegr, am eu bod yn ymestyn cyfnod y Pasg.

> *"Gan fod gwyliau'r Pasg wedi'u hymestyn cryn dipyn a bod gwyliau Pasg ar draws y ffin yn Lloegr ar wahanol ddyddiadau, mae'r Pasg mewn gwirionedd yn ymestyn dros*

*dair neu bedair wythnos."*

13.7 Mae'r tywydd cynnes dros benwythnos y Pasg yn bendant wedi chwarae rhan bwysig mewn annog pobl i fwynhau'r awyr agored, ac mae atyniadau a darparwyr gweithgareddau wedi elwa'n fawr ar hyn.

*“Roedd digonedd o ymwelwyr dros benwythnos y Pasg.”*

*"Mae'r tywydd yn gwneud byd o wahaniaeth ac mae'n annog pobl i fynd allan a gwneud pethau ... mae tymheredd cynhesach yr aer yn galluogi pobl i fynd allan a gwneud y gweithgareddau dŵr neu'r gweithgareddau cerdded hynny."*

*"Y tywydd yw un o'r prif ffactorau o ran pa mor llwyddiannus rydym yn ystod y Pasg, ac mae'r pedwar diwrnod o'r Pasg wedi bod yn dda iawn!"*

## Natur dymhorol

### Mae'r rhai hynny sy'n aros ar agor yn addasu i anghenion y farchnad

13.8 Gall perchnogion busnes benderfynu addasu'r hyn y maen nhw'n ei gynnig yn ystod y misoedd tawel er mwyn ateb y galw sydd ar gael, boed hyn o dwristiaeth neu beidio.

*"Rydyn ni'n tueddu i fod ar agor drwy'r flwyddyn, ond rwyf ond yn agor i gwsmeriaid rheolaidd neu i gontractwyr sy'n gwneud gwaith yn yr ardal."*

*"Mae darparwyr sy'n parhau i gael y cynnig i wneud pethau yn ystod y cyfnodau hynny y maen nhw ar gau, ond maen nhw'n sylweddoli ei bod hi'n bur debyg na fyddant yn cael llawer o fusnes, felly mae'n rhaid iddyn nhw ddarparu cynnig cyfyngedig."*

*"Mae gan gwpwl o safleoedd gynulleidfa fechan iawn, felly maen nhw ond ar agor ar benwythnosau yn ystod y gaeaf."*

*"Nid oes modd cael popeth ar agor ar bob adeg, ond ar safleoedd mwy o faint bydd rhywbeth ar agor, fel y caffi neu'r siop."*

### Mae busnesau llai o faint yn tueddu i weld llai o ymwelwyr yn ystod y gaeaf

13.9 Fel y gwelir yn y canfyddiadau meintiol, noda rhanddeiliaid fod busnesau llai o faint yn tueddu i gau dros dymor y gaeaf am nad ydynt yn denu cymaint o ymwelwyr. Maen nhw'n dweud na fyddai o bosibl yn ymarferol yn ariannol i rai busnesau aros ar agor yn ystod y tymor tawelach.

*"Mae rhai darparwyr gweithgareddau dŵr yn dewis peidio â gwneud y gweithgareddau hynny pan fydd y tywydd yn oeri, oherwydd mae cwymp mewn tymheredd yn heriol i'r mwyafrif o bobl. Gyda llai a llai o gwsmeriaid, efallai na fyddai'n ariannol hyfyw i ddal ati drwy gyfnod y gaeaf."*

“Y rhan fwyaf o'r amser, maen nhw'n cau am nad ydynt yn cael cymaint o ymwelwyr. Hefyd, mae rhai ohonynt mewn mannau gwledig iawn, felly maen nhw'n dibynnu mwy

ar y diwydiant twristiaeth. Ni fyddai'n gwneud synnwyr yn ariannol i aros ar agor dros fisoedd y gaeaf."

**Mae angen seibiant ar berchnogion o bryd i'w gilydd**

13.10 Hefyd, yn unol â'r canfyddiadau meintiol, mae rhanddeiliaid yn cadarnhau bod perchnogion busnes yn y diwydiant twristiaeth yn manteisio ar y cyfnod tawelach yn ystod y gaeaf i wneud gwaith cynnal a chadw neu ailwampio, gan nad oes amser ganddyn nhw i wneud hyn o bosibl yn ystod cyfnodau prysurach y flwyddyn. Mae gadael y gwaith cynnal a chadw tan gyfnodau tawelach yn golygu na fyddant yn colli busnes.

*"Mae'n dda gallu gwneud yr holl waith cynnal a chadw a sicrhau bod popeth yn gweithio fel y dylai, oherwydd ychydig iawn o gyfle sydd i wirio os ydych yn gweithio 24/7."*

*“Mae'n rhaid i ni fod yn ofalus gyda'r ochr gadwraeth. Mae rhai o'r adeiladau yn fwy sensitif na'i gilydd, felly dim ond rhannau ohonynt sydd ar agor oherwydd y gwaith cadwraeth sydd angen ei wneud arnynt dros y gaeaf."*

*"Yn ystod y cyfnod y maen nhw ar gau, bydd aelodau yn gwneud yn siŵr bod eu gwaith cynnal a chadw wedi'i gwblhau a bod eu hoffer yn barod i'w ddefnyddio, fel y gallant ddechrau'n syth pan fyddant yn agor."*

*“Mae angen cael rhywfaint o amser tawel, neu fel arall, sut mae disgwyl i chi wneud unrhyw waith cynnal a chadw y mae angen i chi ei wneud? Ni allwch fod yn ailaddurno pan fydd gwesteion gennych, oherwydd bydd yn effeithio ar eu harhosiad."*

13.11 Yn ogystal, mae rhai busnesau llai o faint yn defnyddio'r gaeaf er mwyn iddyn nhw neu eu staff gymryd gwyliau.

*"Mae cyfran o'n haelodau sy'n cymryd seibiant hir dros y gaeaf yn tueddu i fynd ar wyliau eu hunain."*

*"Pan mae gennych gwmni bach gyda nifer fach o staff, maen nhw'n gweithio oriau hir iawn yn ystod yr haf, felly byddant eisiau ychydig o amser o'r gwaith i ymlacio ac adfer."*

**Tymor llewyrchus a ffyniannus i ddod**

13.12 Ar ôl cael blas o dywydd hafaidd dros benwythnos y Pasg, mae rhanddeiliaid yn edrych ymlaen at beth sydd i ddod yn nhymor yn haf. Maen nhw'n gobeithio am fwy o heulwen a thywydd poeth, a ddylai annog ymwelwyr i ddod i Gymru.

*“Fel arfer, mae cael Pasg da a dechrau da i'r flwyddyn yn ein rhoi ni mewn safle da am weddill y flwyddyn. Mae gennym 23% yn fwy o archebion nag y llynedd ar hyn o bryd, felly os bydd y tywydd yn cadw'n weddol braf, dylai fod yn dymor da."*

*“Rwy'n disgwyl i'r tywydd fod yn dda yn ystod y misoedd nesaf, felly rwy'n tybio y dylem wneud yn dda."*

"Rwy'n eithaf hyderus gan fod y tywydd ar ein hochr yn ôl pob golwg. Rhagwelir y bydd y tywydd yn dda am y saith i wyth wythnos nesaf, ac mae hynny'n dal i fod yn gynnar yn y flwyddyn...Rwy'n hyderus iawn."

# Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

## Pasg 2019

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich math o fusnes orau?

- Llety â gwasanaeth ☐
- Llety hunan arlwyo ☐
- Maes carafannau / pebyll ☐
- Hostel ☐
- Atyniad ☐
- Cynal gweithgaredd ☐
- Bwyty / tafarn / caffi ☐

Q1 A yw eich busnes wedi'i sefydlu am fwy na 12 mis?

- Do ☐ Go to Q2
- Naddo ☐ Go to Q7

Q2 O gymharu â'r Pasg y llynedd, faint o ymwelwyr yr ydych wedi'u cael yr Pasg hwn?

- Yn fwy na'r llynedd ☐
- Tua'r un peth ag y llynedd ☐
- Yn llai na'r llynedd ☐
- Ddim yn gwybod ☐

Q3 Pam fyddech chi'n dweud eich bod wedi cael mwy o ymwelwyr? *(Paid a annog, ticiwch bob un perthnasol)*

- Pasg hwyr ☐
- Tywydd gwell ☐
- Marchnata eich hun ☐
- Busnes dychwel ☐
- Adferiad economaidd ☐
- Mwy o archebion trwy asiant ar-lein (e.e. booking.com) ☐
- Wedi arwyddo fyny i asiantaeth newydd (hunan arlwyo) ☐
- Argymhellion ☐
- Cynnydd mewn twristiaeth ☐
- Mwy o le / ystafelloedd ☐
- Digwyddiadau yn yr ardal ☐
- Ystafelloedd neu gyfleusterau gwell ☐
- Mwy o bobl Prydain yn aros yn y DU ☐
- Mwy o ymwelwyr tramor ☐
- Ddim yn gwybod ☐
- Arall ☐

Nodwch reswm / resymau eraill ______________________

Q4 Pam fyddech chi'n dweud eich bod wedi cael llai o ymwelwyr? *(Paid a annog, ticiwch bob un perthnasol)*

- Tywydd ❑
- Ddim wedi hyrwyddo'r busnes / busnes dirwyn i lawr ❑
- Problemau annisgwyl ❑
- Ansicrwydd Brexit ❑
- Cystadleuaeth bris isel ❑
- Twristiaeth wedi gostwng yn yr ardal ❑
- Llai o ymwelwyr tramor ❑
- Llai o bobl Prydain yn mynd ar wyliau yn y DU ❑
- Ddim yn gwybod ❑
- Arall ❑
  - Nodwch reswm / resymau eraill ____________________

Q5 O edrych ar darddiad eich ymwelwyr, sut mae lefel y busnes y Pasg hwn o bob un o'r marchnadoedd canlynol o'i gymharu â'r Pasg y llynedd?

| | I fyny ar y llynedd | Tua'r un peth a llynedd | I lawr ar y llynedd | Ddim yn gwybod neu ddim yn gymwys |
|---|---|---|---|---|
| Cymru | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| O fewn y DU ond tu allan Cymru | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gweriniaeth Iwerddon | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Yr Almaen | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gwledydd eraill yn Ewrop | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gogledd America | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gweddill y byd | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

Q6 Sut mae eich proffidioldeb ar y cyfan y Pasg hwn yn cymharu â'r Pasg y llynedd?

- I fyny ar y llynedd ❑
- Tua'r un peth a llynedd ❑
- I lawr ar y llynedd ❑
- Ddim yn gwybod / well gen i ddim dweud ❑

Q7 Pa mor hyderus ydych chi am tymor yr haf?

- Hyderus iawn ❑
- Eithaf hyderus ❑
- Ddim yn hyderus iawn ❑
- Ddim yn hyderus o gwbl ❑
- Ddim yn gwybod ❑

Q8 *Cyfwelydd: cofnodi'r holl sylwadau defnyddiol ar berfformiad yr Pasg hwn, marchnadoedd neu hyder ar gyfer yr haf.*

____________________

Q9 A yw eich busnes ar agor drwy gydol y flwyddyn?

*Os ydynt ar agor bron trwy gydol y flwyddyn gyda rhai eithriadau, e.e. ar gau am ychydig ddyddiau dros y Nadolig, ticiwch 'ydw'*

Ydw ........ ❑
Nac ydw ........ ❑

Q10 (OS NAD YW AR AGOR DRWY GYDOL Y FLWYDDYN, AC WEDI'I SEFYDLU'N HWY NA 12 MIS)

Ym mha fisoedd ydych chi fel arfer yn cau?

Ionawr ........ ❑
Chwefror ........ ❑
Mawrth ........ ❑
Ebrill ........ ❑
Mai ........ ❑
Mehefin ........ ❑
Gorffennaf ........ ❑
Awst ........ ❑
Medi ........ ❑
Hydref ........ ❑
Tachwedd ........ ❑
Rhagfyr ........ ❑

Q11 (OS NAD YW AR AGOR DRWY GYDOL Y FLWYDDYN, AC WEDI'I SEFYDLU'N HWY NA 12 MIS)

Beth allai berswadio chi i agor y busnes yn hirach yn ystod y flwyddyn? *(Paid a annog, marciwch bob un sy'n berthnasol)*

Niferoedd cyffredinol yr ymwelwyr â'r ardal leol yn werth chweil ........ ❑
Mwy o fusnesau twristiaeth yn yr ardal yn agor am gyfnod hirach ........ ❑
Canolfan wybodaeth i dwristiaid ar agor am gyfnod hirach ........ ❑
Digon o staff medrus ar gael y tu allan i'r tymor brig ........ ❑
Hyrwyddo i farchnadoedd nad ydynt yn farchnadoedd gwyliau - e.e. digwyddiadau busnes / twristiaeth ........ ❑
Pe gallem weld Croeso Cymru neu gyrchfan fwy lleol yn ceisio denu twristiaid drwy gydol y flwyddyn ❑
Mwy o atyniadau dan do / pethau i'w gwneud mewn tywydd oer / gwlyb ........ ❑
Mwy o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn yn fy ardal i ........ ❑
Nid oes gennym ganiatâd (e.e. cyfyngiad agor 10 mis) ........ ❑
Dim byd ........ ❑
Arall ........ ❑
Nodwch reswm / resymau eraill ______________________________

Q12 (OS 'DIM BYD')

Pam na fyddai unrhyw beth yn eich perswadio i agor yn hirach?

______________________________

Q13 (PAWB)

Yn fras, pa ganran o'ch busnes sy'n dod o bob un o'r pedwar cyfnod canlynol?

Pasg hyd at ddechrau gwyliau haf ysgol ____________
Gwyliau haf ysgol ____________
Mis Medi a Hydref ____________
Mis Tachwedd i mis Mawrth ____________

Q14 A yw eich busnes wedi'u graddio neu wedi'u hachredu gan Croeso Cymru / Visit Wales?

Do ........................................................................................................................................ ❑
Naddo ................................................................................................................................... ❑